



Tribiwnlys Addysg Cymru

Caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys: Canllawiau

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i wneud cais am ganiatâd i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys, i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Dribiwnlys Addysg Cymru (ETW).

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu achosion. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu apeliadau a hawliadau y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb ym mha bynnag iaith a ddefnyddiwch, ac ni fydd gohebu yn y naill iaith neu'r llall yn arwain at oedi ein hymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adnoddau Gwybodaeth

- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys \(Uwch Dribiwnlys\) 2008](#)

Cyflwyniad

Os credwch fod y penderfyniad ar eich achos yn anghywir ar bwynt cyfreithiol, gallwch apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys. Bydd yr Uwch Dribiwnlys yn adolygu'r achos, y gyfraith, a phenderfyniad y Tribiwnlys, ac yn gwneud ei benderfyniad ei hun.

I apelio i'r Uwch Dribiwnlys, yn gyntaf rhaid i chi wneud cais i Dribiwnlys Addysg Cymru am ganiatâd i apelio.

Pwy all wneud cais?

Gall unrhyw barti i achos yn Nhribiwnlys Addysg Cymru wneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys i'r Uwch Dribiwnlys.

Y partïon yw'r rhai a gyflwynodd yr achos, a'r rhai a ymatebodd i'r achos. Gall partïon gynnwys plant, eu rhieni, pobl ifanc, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, neu gyrff cyfrifol sy'n ymateb i hawliadau.

Er enghraifft:

- Gall person ifanc apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol ynghylch ei ADY. Yn yr achos hwn, cyflwynodd y person ifanc yr achos i'r Tribiwnlys, a rhaid i'r awdurdod lleol ymateb i'r achos i amddiffyn ei benderfyniad. Mae'r person ifanc a'r awdurdod lleol yn bartïon i'r achos.
- Gall plentyn wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd am ei ysgol. Yn yr achos hwn, cyflwynodd y plentyn yr achos i'r Tribiwnlys, a rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol ymateb i'r achos i amddiffyn ei sefyllfa. Mae'r plentyn a chorff llywodraethu'r ysgol yn bartïon i'r achos.

Gall cynrychiolwyr apelio ar ran eu cleientiaid.

Pa resymau alla i eu defnyddio i wneud cais?

Gallwch wneud cais i Dribiwnlys Addysg Cymru am ganiatâd i apelio yn erbyn ei benderfyniad os credwch fod y penderfyniad yn anghywir ar bwynt cyfreithiol.

Gall enghreifftiau gynnwys :

- Ni wnaeth y Tribiwnlys gymhwyso'r gyfraith gywir, neu ni wnaeth ddehongli cyfraith yn gywir;
- Gwnaeth y Tribiwnlys gamgymeriad gweithdrefnol;
- Nid oedd gan y Tribiwnlys unrhyw dystiolaeth neu ddigon o dystiolaeth i gefnogi ei benderfyniad; neu
- Ni roddodd y Tribiwnlys resymau digonol i gefnogi ei benderfyniad.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain, a gallai'r Tribiwnlys fod yn anghywir ar bwynt cyfreithiol am resymau na sonnir amdanynt yma.

Pryd alla i wneud cais?

Rhaid i chi gyflwyno'ch cais ddim mwy na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad i chi dderbyn:

- penderfyniad am achos;
- penderfyniad diwygiedig, yn dilyn adolygiad gan y Tribiwnlys; neu
- hysbysiad bod cais i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad wedi bod yn aflwyddiannus. Nid yw ceisiadau a wneir wedi'r dyddiad cau wedi'u cynnwys.

Sut ydw i'n gwneud cais am ganiatâd i apelio

Rhaid i chi wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn ysgrifenedig, drwy'r post neu drwy e-bost.

Rhaid i'r cais:

- nodi'r penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef;
- nodi'r camgymeriad neu'r camgymeriadau cyfreithiol yn y penderfyniad; a
- nodi'r canlyniad rydych chi'n ei geisio.

Bydd ein ffurflen, *Caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys: Ffurflen gais (ETW23)*, yn sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Os byddwn yn derbyn eich cais mewn pryd byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthy'ch ein bod yn delio â'ch cais.

Byddwn yn penderfynu wedyn a ddylid adolygu'r penderfyniad gwreiddiol. Ni fyddwn yn gwneud hyn os ydym eisoes wedi adolygu'r penderfyniad, neu ein bod eisoes wedi penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad.

Os byddwn yn penderfynu adolygu'r penderfyniad, byddwn yn ysgrifennu at y ddau barti i wahodd sylwadau. Sylwadau yw barn y partïon ar y mater, a'r hyn y maent am i ni ei ystyried wrth adolygu'r penderfyniad.

Os na fyddwn yn adolygu'r penderfyniad, byddwn yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Rhoi caniatâd

Os byddwn yn rhoi caniatâd i apelio, bydd angen i chi gwblhau Hysbysiad o Apêl i'r Uwch Dribiwnlys. Hysbysiad o Apêl yw eich cais apêl i'r Uwch Dribiwnlys. Byddwn yn anfon hwn atoch pan fyddwn yn rhoi caniatâd. Rhaid i chi ei anfon i'r Uwch Dribiwnlys dim hwyrach na mis ar ôl y dyddiad i ni roi caniatâd i chi apelio.

Gwrthod caniatâd

Os na fyddwn yn rhoi caniatâd i apelio, gallwch wedyn ofyn i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio. Ni fydd yn ystyried eich cais oni bai ein bod ni eisoes wedi gwrthod caniatâd. Byddwn yn anfon gwybodaeth atoch am wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd os na fyddwn yn rhoi caniatâd ein hunain.

Os byddwch yn gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio, rhaid i chi wneud hynny heb fod yn hwyrach na mis ar ôl y dyddiad i ni wrthod caniatâd.

Byddwch angen caniatâd i apelio naill ai gan Dribiwnlys Addysg Cymru neu'r Uwch Dribiwnlys cyn y gallwch gyflwyno Hysbysiad o Apêl.